# Ysgol Llanhari

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
01443 237824 | post@llanhari.cymru
**www.llanhari.cymru**

Annwyl Riant/Warcheidwad,

**Parthed: Cwrs trosglwyddo blwyddyn 7 Ysgol Llanhari**

Rydym yn trefnu mynd â blwyddyn 7 ar gwrs iaith/trosglwyddo i Ganolfan yr Urdd yng Nghaerdydd ym mis Medi 15-17. Rydym yn awyddus iawn bod pob plentyn ym mlwyddyn 7 yn mynychu os yn bosibl. Mae'r ysgol yn talu cost y daith hon i ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, ond bydd rhaid cysylltu gyda'r ysgol i drafod hyn ymhellach.

Mae'r adnoddau yng Nghanolfan yr Urdd yn fendigedig. Fe fydd pob plentyn mewn ystafell i 6 ac mae cyfleusterau en-suite ymhob un. Yn ystod y daith, ein bwriad yw gwneud nifer o weithgareddau er mwyn rhoi'r cyfle i'r plant ddod i adnabod ei gilydd, Arweinydd Cynnydd, eu Tiwtor Personol ac i gael hwyl drwy gymdeithasu yn y Gymraeg.

Bydd nifer o weithgareddau gwahanol a byddwn yn cynnwys rhai o'r canlynol:

- Bowlio
- Trip mewn cwch o amgylch y Bae
- Ymweliad â Techniquest
- Taith i Stadiwm Principality
- Sinema
- Siopa
- Taith i Gastell Caerdydd
- Taith i Sain Ffagan

Cost y daith fydd **£190.00**. Mae hyn yn cynnwys aros yng Nghanolfan yr Urdd am ddwy noson, trafnidiaeth a'r holl weithgareddau. Hefyd, mae pob pryd bwyd o'r nos Lun hyd at amser cinio dydd Mercher wedi ei baratoi gan fwyty Canolfan y Mileniwm ac wedi cynnwys yn gost y daith. Bydd angen pecyn bwyd ar gyfer cinio dydd Llun.

**Bydd rhaid talu blaendal ni ellir ei ad-dalu o £100 erbyn y 4ydd o Fehefin 2025 gyda'r ail daliad o £90 erbyn y 5ed o Fedi 2025.** Dylid talu Ysgol Llanhari ar lein os gwelwch yn dda drwy wefan rctcbc.gov.uk/payit. Cysylltwch â'r ysgol os yw hyn yn broblem. Mae croeso i chi wneud rhandaliadau, ond bydd rhaid cysylltu gyda'r ysgol i drafod hyn ymhellach. **Dylid dychwelyd y rhwyglen isod i'r Ysgol ar ddiwrnod trosglwyddo nesaf ar y 4ydd o Fehefin neu trwy law athro blwyddyn 6.**

Yn gywir,

**Mr John Rivers**
Arweinydd Cynnydd Blwyddyn 7

**Mrs Meinir Thomas**
Pennaeth

---

Enw'r plentyn .......................................................Ysgol Gynradd .......................................................

Cytunaf i fy mhlentyn fynychu cwrs trosglwyddo blwyddyn 7 i Fae Caerdydd.
Rwyf wedi talu blaendal o £100 ar lein. Rwy'n deall na all y blaendal yma gael ei ad-dalu.

Llofnod rhiant/gwarcheidwad....................................................... Dyddiad: ....................................
Rhif ffôn:...................................................................

Ysgol Llanhari

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
01443 237824 | post@llanhari.cymru
**www.llanhari.cymru**

Dear Parent/Guardian,

**Re: Ysgol Llanhari year 7 transition course**

We intend to take year 7 on a language/transition course to the Urdd Centre, Cardiff at the end of September 15th – 17th. We are keen that every pupil attends this course if possible. The school covers the cost of this course for pupils receiving free school meals, but you will need to contact the school to discuss this further.

The facilities at the Urdd Centre are fabulous. Each child will be in a room for 6 with their own en-suite facilities. During the trip, we will be involved in a number of activities which will give the pupils plenty of opportunities to make new friends, get to know their Progress Leader, form tutor and enjoy themselves whilst socialising through the medium of Welsh.

We will be arranging a varied programme, which will include some of the following activities:

| | |
|---|---|
| Bowling | Cinema |
| Boat trip around the Bay | Shopping |
| Visit to Techniquest | Cardiff Castle |
| Tour of the Millennium Stadium | Trip to St Fagans |

The cost of the trip will be **£190.00**. This includes a two night stay at the Urdd Centre, transport and all the activities. All meals from Monday evening untill Wednesday lunch time will be prepared by the restaurant at the Millennium Centre and are also included in the price of the trip. Pupils will need a packed lunch for lunch time on Monday.

**A non-refundable deposit of £100 will need to be paid by the 4th of June 2025, with the second payment of £90 by the 5th of September 2025.** Payments should be made online via the website rctcbc.gov.uk/payit. Please contact the school if there is a problem. You are welcome to pay in instalments, but you will need to contact the school to discuss this further. **The consent slip below should be returned to school on the next transition day on the 4th of June or through the year 6 teacher.**

Yours sincerely,

**Mr John Rivers**
Year 7 Progress Leader

**Mrs Meinir Thomas**
Headteacher

---

Name of pupil ..........................................................Primary School .........................................................

I agree for my child to attend the Year 7 transition course to Cardiff Bay.
I have paid the deposit of £100 deposit online. I understand that the deposit is non-refundable.

Parent/guardian's signature......................................................... Date: ......................................
Telephone number:.....................................................................